Rheolaeth

Meddyliwch Amdani

Ebrill 2008

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Cyngor Defnyddiol?

Ysgrifennodd Marquis de la Grange, yr awdur Ffrengig o'r ail ganrif ar bymtheg, unwaith: "pan fyddwn ni'n gofyn am gyngor, byddwn ni fel rheol yn chwilio am affeithiwr," ond rhybuddiodd Al Franken, y diddanwr a'r gwleidydd o America: "pan fyddwch chi'n dod ar draws cyngor da i bob golwg, sy'n gwrth-ddweud cyngor arall da i bob golwg, anwybyddwch y ddau."

Pan fydd angen ichi wneud penderfyniad rheoli anodd, at bwy fyddwch chi'n troi am gyngor? Sut fyddwch chi'n gwerthuso'r cyngor hwnnw, ac a fyddwch chi'n ceisio cyfarwyddyd o ddifrif, ynteu'n hytrach yn chwilio am rywun i gefnogi'r penderfyniad yr oeddech chi am ei wneud yn y lle cyntaf?

Drws Tro ynteu Tîm Sefydlog?

Yn ôl y ffigyrau diweddaraf gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad, mae tua chwarter gweithwyr Prydain wedi bod yn eu swyddi am bum mlynedd neu fwy ac, ar gyfartaledd, bydd cwmnïau'n colli 18% o'u staff bob blwyddyn.

Ydych chi'n gwybod beth yw'r gyfradd trosiant staff gyfartalog ar gyfer eich diwydiant chi, neu a oes gennych chi farn ynghylch pa lefel o drosiant sy'n iach ar gyfer eich cwmni? Pan fydd pobl yn gadael eich cwmni, fyddwch chi'n mynd i'r drafferth i ddarganfod y gwir reswm pam iddyn nhw adael, ac yn ceisio nodi unrhyw broblemau gwaelodol a allai fod yn ach

Llais Awdurdod

Gwnaeth Miranda Kennet, sy'n hyfforddwr busnes blaenllaw, y sylw: "Peidiwch â drysu rhwng awdurdodyddiaeth ac awdurdod. Neges sylfaenol awdurdodyddiaeth yw 'gwnewch yr hyn rwy'n ei ddweud wrthych chi nawr,' a neges awdurdod yw 'dyma'r ffordd rydym ni'n mynd; dewch gyda mi.'

Fel arweinydd, allwch chi weld y gwahaniaeth yn eich trafodion â'ch tîm? Ydych chi wedi meistroli'r grefft o sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth pobl heb fod yn ymwthgar, yn reolaethol neu hyd yn oed yn ymosodol?

Peri Trafferth

Cynghorodd yr awdur busnes Richard Templar bawb yn y gadwyn reoli i astudio ac ymddwyn fel y rhai uwch eu pennau os oedden nhw am symud i fyny yn y sefydliad. Dywedodd: "Os ydych chi'n rheolwr canol, dylech chi fod yn ymddwyn ac yn siarad fel petaech chi eisoes yn uwch reolwr."

A oes gennych chi reolwr sy'n fodel rôl sy'n uwch neu'n fwy profiadol na chi'ch hun rydych chi'n ceisio'i efelychu? Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ymagwedd gywir, ynteu dylech chi geisio datblygu'ch arddull rheoli unigryw eich hun er mwyn ennill y blaen?

Mater o Ymddiriedaeth

Cafodd arolwg Ipsos MORI o gyhoedd Prydain mai 31% yn unig o ymatebwyr oedd yn ymddiried mewn arweinwyr busnes i ddweud y gwir, o'u cymharu â 92% a oedd yn ymddiried mewn meddygon ac 88% a oedd yn ymddiried mewn athrawon.

Pam ydych chi'n meddwl bod cyn lleied o bobl yn disgwyl i bobl fusnes ddweud y gwir? Oes gwrthdaro sylfaenol rhwng dweud yr holl wir a'r rheidrwydd masnachol i gyflwyno'r ddelwedd orau o'ch cwmni a'r hyn sydd gennych chi i'w gynnig?

Rhywbeth Da i'w Ddarllen

Yn ôl cylchgrawn Management Today, mae Managing Difficult conversations at Work gan Sue Clark a Mel Myers (Management Books 2000) yn academaidd, yn fanwl iawn, gydag ymarferion ymarferol. Mae'r llyfr hwn yn darparu canllaw trylwyr i ddelio â phob math o sgyrsiau lletchwith â swyddogion. Mae'r awduron, sef seicolegwyr sydd ag 20 mlynedd o brofiad o hyfforddi, yn cwmpasu popeth o faterion gwrthdaro o ran teyrngarwch i ddelio â beirniadaeth. Mae'n galw am amser, felly mae'n gweddu orau i'r rheiny sy'n chwilio am rywbeth dwfn i'w ddarllen. Gallai fod yn ffordd dda o dreulio amser.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth